| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | |
| **Pwnc / Subject:** | Addysg yn y Cartref – Arweiniad Statudol ar gyfer Awdurdodau Lleol a Llawlyfr ar gyfer Addysgwyr yn y Cartref |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**
Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

# Addysg yn y Cartref – Arweiniad Statudol ar gyfer Awdurdodau Lleol a Llawlyfr ar gyfer Addysgwyr yn y Cartref

Mae Estyn yn croesawu cryfhau’r arweiniad statudol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu swyddogaethau o dan adran 436A Deddf Addysg 1996, sy’n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i sefydlu pwy yw’r plant yn eu hardal nad ydynt yn ddysgwyr cofrestredig mewn ysgol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas.

Mae Estyn wedi croesawu’r cyfle i weithio’n agos â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu’r arweiniad. At ei gilydd, rydym o’r farn fod yr arweiniad statudol wedi’i ysgrifennu’n glir a bod ganddo’r lefel briodol o arweiniad i fod o fudd i awdurdodau lleol. Gellid ei gryfhau ymhellach trwy:

- ddarparu arweiniad mwy eglur ar sut dylai awdurdodau lleol hyrwyddo cyfle i fanteisio ar wasanaethau cymorth ehangach ar gyfer plant a phobl ifanc, fel eirioli a chwnsela i deuluoedd sy’n addysgu yn y cartref
- nodi’r angen o dan bennod 6 i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 26 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 o ran plant a phobl ifanc sy’n cael eu haddysgu gartref
- mwy o eglurder ynglŷn â chyfrifoldebau’r ysgol a’r awdurdod lleol o ran addysg hyblyg
- cyfeirio at gyd-destun dwyieithog Cymru

**Cwestiwn 1** – A yw’r arweiniad statudol drafft yn darparu gwybodaeth addas i alluogi awdurdodau lleol i asesu addasrwydd yr addysg a dderbynnir gan blant sy’n cael eu haddysgu yn y cartref?

| Ydy | ✓ | Nac ydy | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2 – Pennod 1: cyfrifoldebau cyfreithiol** – A yw’r bennod hon yn amlinellu’n glir hawliau rhieni i addysgu eu plant yn y cartref, a’r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i nodi plant a gwneud ymholiadau am eu darpariaeth addysgol?

| Ydy | ✓ | Nac ydy | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3 – Pennod 2: nodi plant nad ydynt yn hysbys i'r awdurdod lleol** –

a) A yw'r bennod hon yn amlinellu'n glir y gofyniad o dan Adran 436A Deddf Addysg 1996 i awdurdodau lleol wneud trefniadau iddynt nodi, cyhyd ag y bo modd, pwy yw'r plant yn eu hardal nad ydynt yn derbyn addysg addas?

| **Ydy** | ✓ | **Nac ydy** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

b) A yw datblygu cronfa ddata yn ddull rhesymol a chymesur, yn eich barn chi?

| **Ydy** | ✓ | **Nac ydy** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae hawl absoliwt plant i dderbyn addysg yn golygu bod rhaid cael cronfa ddata a fydd yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau statudol. |

c) A ydych chi o'r farn y dylid rhoi system ar waith sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion annibynnol a byrddau iechyd lleol rannu gwybodaeth benodol gyfyngedig ag awdurdodau lleol, i'w galluogi i nodi plant nad ydynt yn hysbys iddynt, er mwyn gwneud trefniadau i sicrhau bod y plant hyn yn derbyn addysg addas?

Os 'nac ydw', sut byddech chi'n awgrymu y dylai'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i nodi plant nad ydynt yn hysbys iddynt er mwyn gwneud trefniadau i sicrhau bod y plant hyn yn derbyn addysg addas?

| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae hawl absoliwt plant i gael addysg addas yn brif ffactor. |

**Cwestiwn 4 – Pennod 3: addysg effeithlon ac addas** – Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar y gofyniad i awdurdodau lleol ystyried p'un a yw'r ddarpariaeth addysg yn addas i anghenion y plentyn unigol; p'un a yw dysgu yn digwydd; a ph'un a yw'r plentyn yn gwneud cynnydd rhesymol yn unol â'i oedran, ei ddoniau ac unrhyw anghenion addysg arbennig a allai fod ganddo.

a) Dylai teuluoedd sy'n dewis addysgu yn y cartref allu cynnig addysg addas o'r cychwyn, ac wedi gwneud paratoadau i'r perwyl hwnnw. Wedi dweud hynny, a ydych chi'n credu y dylid rhoi cyfnod addasu rhesymol i deuluoedd cyn i'r awdurdod lleol ystyried p'un a oes addysg addas yn cael ei darparu? Os 'ydyn', nodwch beth fyddai'n cael ei ystyried yn rhesymol, yn eich barn chi?

| **Ydyn** | ✓ | **Nac ydyn** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Byddai o leiaf wyth wythnos yn ymddangos yn rhesymol. Mae hyn yn caniatáu digon o amser i addasu, ac mae'n gyfnod digon hir sy'n golygu na ddylai fod gan yr awdurdod lleol unrhyw amheuaeth ar ôl y cyfnod hwn fod addysg addas yn cael ei darparu.

b) Mae Adran 4.15–4.18 yr arweiniad statudol yn cyfeirio at nodweddion awgrymedig addysg addas ac effeithlon i awdurdodau lleol eu hystyried. A oes unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys, yn eich barn chi?

| **Oes** | ✓ | **Nac oes** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Dylai'r addysg gefnogi iechyd a lles plentyn.

c) Mae Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn datgan bod gan blant yr hawl i gael barn, ac y dylid ystyried y farn hon pan fydd pobl yn gwneud penderfyniadau am bethau sy'n ymwneud â nhw. Mae'r arweiniad statudol yn datgan, er mwyn i awdurdod lleol argyhoeddi ei hun ynghylch addasrwydd yr addysg a ddarperir, y dylai'r awdurdod lleol weld y plentyn, a siarad ag ef. A ydych chi'n cytuno â'r datganiad hwn? Os 'Ydyn', beth fyddai'r ffordd orau o gasglu barn y plentyn sy'n cael ei addysgu gartref?

| **Ydyn** | ✓ | **Nac ydyn** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Bydd y ffordd orau yn amrywio yn dibynnu ar sawl ffactor, fel oedran y plentyn, ei gyfnod datblygu, unrhyw anghenion addysgol arbennig neu broblemau iechyd. Dylai swyddogion awdurdodau lleol ddefnyddio eu barn broffesiynol wrth gytuno ar ddull priodol gyda theuluoedd unigol ynglŷn â chyfarfod â'u plentyn.

ch) Yn eich barn chi, pa mor aml fyddai'n rhesymol i'r awdurdod lleol gyfarfod â'r teulu sy'n addysgu yn y cartref i asesu addasrwydd yr addysg a ddarperir? Esboniwch eich safbwyntiau.

**Sylwadau ategol**

Byddai'n rhesymol diweddaru asesiadau bob blwyddyn. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, ni fydd hon yn dasg ymwthiol neu feichus. Fodd bynnag, mae'n rhoi cyfle bob blwyddyn i wasanaethau statudol sicrhau bod hawl absoliwt y plentyn i gael addysg addas yn cael ei chynnal.

d) Yn eich barn chi, pwy fyddai yn y sefyllfa orau i gynnal yr ymweliadau ac asesu addasrwydd y ddarpariaeth addysg, a pham? Er enghraifft, gallai hyn gynnwys (ond nid yw wedi'i gyfyngu i):

- swyddogion addysg yn y cartref awdurdodau lleol
- panel annibynnol o weithwyr addysg proffesiynol
- athro cymwys
- cynorthwyydd addysgu
- arall.

**Sylwadau ategol**

Byddai'n ymddangos yn fwyaf priodol i awdurdod lleol wneud y penderfyniad hwn. Yn hytrach na nodi unigolyn sydd â rôl neu gymhwyster penodol, dylai'r awdurdod lleol sicrhau eu bod yn defnyddio unigolyn sydd â medrau priodol i gynnal ymweliadau a gwneud asesiadau. Gallai'r unigolyn hwn fod yn aelod o staff neu gellid neilltuo unigolyn yn benodol ar gyfer y dasg, neu gallai awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth i gyflawni'r rôl hon.

dd) Yn eich barn chi, gan bwy arall y dylid ceisio mewnbwn pan fydd yr awdurdod lleol yn asesu addasrwydd y ddarpariaeth addysg, a pham? Er enghraifft, gallai hyn gynnwys (ond nid yw wedi'i gyfyngu i):

- seicolegwyr addysg
- therapydd lleferydd ac iaith
- gweithwyr proffesiynol arbenigol eraill.

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Byddai'n ymddangos yn fwyaf priodol mai'r awdurdod lleol sy'n gwneud y penderfyniad hwn, ar sail y wybodaeth sydd ganddynt am bob plentyn. Gallai'r awdurdod lleol benderfynu, yn dilyn ymweliad, fod angen cynnal ymweliad pellach sy'n cynnwys un arbenigwr neu fwy, cyn y gellir cwblhau'r asesiad addasrwydd. |

e) A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y bennod hon?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 5 – Pennod 4: gorchmynion presenoldeb ysgol a gorchmynion goruchwylio addysg** – Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar bwerau presennol sydd ar gael i awdurdodau lleol pan na allant argyhoeddi eu hunain bod plentyn sy'n cael ei addysgu yn y cartref yn cael addysg addas.

Er nad oes unrhyw ddyletswydd ar addysgwyr yn y cartref i ymateb i geisiadau rhesymol gan yr awdurdod lleol, mae cyfraith achos wedi sefydlu y byddai'n annoeth iddynt beidio ag ymateb. Heb wybodaeth sy'n awgrymu bod y plentyn yn cael ei addysgu'n briodol, mae'n rhesymol i'r awdurdod lleol ddod i'r casgliad nad yw'n ymddangos bod y ddarpariaeth addysg yn ymddangos yn addas.

A yw'r bennod hon yn glir ynghylch:

a) cyfrifoldebau awdurdodau lleol i gyflwyno gorchmynion presenoldeb ysgol a gorchmynion goruchwylio addysg?

| **Ydy** | ✓ | **Nac ydy** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

b) y broses y dylid ei dilyn wrth gyflwyno gorchmynion presenoldeb ysgol a gorchmynion goruchwylio addysg?

| **Ydy** | ✓ | **Nac ydy** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6 – Pennod 5: cymorth addysgol** – Mae'r bennod hon yn ystyried y cyngor, y wybodaeth a'r cymorth y gallai awdurdodau lleol drefnu eu bod ar gael i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. A yw'r bennod hon yn ddefnyddiol, yn eich barn chi?

| Ydy | ✓ | Nac ydy | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Gellid ymestyn y bennod hon, er enghraifft trwy gyfeirio at wasanaethau gwybodaeth i deuluoedd, gwasanaethau i blant fel gwasanaethau chwarae, a gwasanaethau cwnsela ac eirioli hefyd, y mae gan blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yn y cartref hawl i elwa arnynt. |

**Cwestiwn 7 – Pennod 6: Diogelu** – Mae'r bennod hon yn amlinellu dyletswyddau diogelu presennol sy'n berthnasol i awdurdodau lleol. Er nad oes unrhyw gydberthynas brofedig rhwng addysg yn y cartref a diogelu, mae dyletswyddau diogelu penodol yn berthnasol i bob plentyn, ni waeth sut mae'n derbyn ei addysg. A yw'r bennod hon yn ddefnyddiol, yn eich barn chi?

| Ydy | ✓ | Nac ydy | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae Adran 26 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, wrth gyflawni eu swyddogaethau, i roi "ystyriaeth briodol i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth". Gallai fod yn ddefnyddiol cyfeirio at y ddyletswydd hon ym mhennod 6. |

**Cwestiwn 8 – Llawlyfr ar gyfer addysgwyr yn y cartref** – Mae'r llawlyfr hwn yn darparu gwybodaeth ar gyfer y rhai sy'n addysgu eu plentyn yn y cartref, neu'n ystyried gwneud hynny. A oes unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys, yn eich barn chi?

| Oes | ☐ | Nac oes | ✓ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 9** – Er ein bod yn cydnabod nad addysg yn y cartref yw addysg hyblyg, rydym yn ymwybodol y byddai rhai addysgwyr yn y cartref yn croesawu gwybodaeth am beth ydyw. A yw'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol (gweler adrannau 6.15–6.19 yn yr arweiniad statudol ac 1.20–1.21 yn y llawlyfr), yn eich barn chi?

| Ydy | ✓ | Nac ydy | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Byddai'n well mai paragraff 6.16 yw'r paragraff agoriadol, yn diffinio addysg hyblyg.

Gan gyfeirio at baragraffau 2.28-2.32, gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys nodyn tebyg yn yr adran ar addysg hyblyg na ddylai ysgolion nac awdurdodau lleol roi pwysau ar rieni wrth ystyried trefniant addysg hyblyg.

Byddai hefyd yn fuddiol ei gwneud yn glir yn yr arweiniad statudol nad oes rhaid i ysgolion gytuno i gais gan deulu am addysg hyblyg (gwneir hyn yn glir yn y llawlyfr).

**Cwestiwn 10** – Hoffem gael gwybod eich barn am yr effeithiau y byddai arweiniad statudol ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch addysg yn y cartref yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai effeithiau hyn, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Dylai'r effeithiau fod yn ddibwys. Mae'r arweiniad ar gyfer addysgwyr yn y cartref yn cynnwys cyfeiriadau buddiol at ble gallant gael cymorth wrth iddyn nhw eu hunain ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u haddysg ar gyfer eu plentyn.

**Cwestiwn 11** – Esboniwch sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y polisi arfaethedig, er mwyn:

iii) cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd;

iv) peidio â chael unrhyw effaith anffafriol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd.

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| At ei gilydd, nid yw'r arweiniad statudol yn cyfeirio o gwbl at gyd-destun dwyieithog Cymru. Gallai fod cyfleoedd i gryfhau'r arweiniad. Er enghraifft, gallai'r templed Cyn-ymweliad ar gyfer rhieni gynnwys cyfle i rieni nodi'r iaith a ddefnyddir ar gyfer addysg yn y cartref. Gallai paragraff 4.15 gyfeirio at gyd-destun dwyieithog Cymru, neu fod yn fwy eglur ynghylch p'un a fyddai datblygu medrau llythrennedd ac iaith sylfaenol yn Gymraeg neu yn Saesneg yn nodwedd mewn addysg addas. |

**Cwestiwn 12** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd arnynt.

| |
|---|
| Mae astudiaeth achos 6 ar dudalen 32 yn nodi bod tair UCD ym Mhowys. Mae tair canolfan gan UCD Powys, yn hytrach na bod tair UCD. |

Mae atebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐